

Cymundeb – nid coffâd

“Rwy’n dweud wrthyhch nad yfaf o hyn allan o hwn, ffrwyth y winwydden, hyd y dydd hwnnw pan yfaf ef yn newydd gyda chwi yn nheyrnas fy Nhad.” (adn. 29)

Beth am ddarllen Mathew 26:17–30 ac yna myfyrio

Mae'r atgyfodiad yn achos dathlu mawr – mae'r Iesu oedd unwaith yn farw yn odidog o fyw. Yr atgyfodiad hefyd a newidiodd y Swper Olaf i fod yn Swper yr *Arglwydd*. Oni bai am yr atgyfodiad, y Swper Olaf fyddai'n llythrennol wedi bod yn swper olaf ein Harglwydd. Hyd yn oed yn yr oruwchystafell, roedd llygaid Iesu yn edrych i'r dyfodol pan fyddai'n yfed o ffrwyth y winwydden o'r newydd gyda'i ddisgyblion yn nheyrnas ei Dad. Oherwydd ei fod wedi marw ac atgyfodi, mae popeth wedi'i wneud o'r newydd: mae gennym gyfamod newydd, bywyd newydd, ac rydyn ni'n greadigaeth newydd (gweler 2 Cor. 5:17). Rydyn ni'n llawenhau'n awr yn y bywyd y mae ef yn ei roi, ac yn ymhyfrydu yn ein gobaith o rannu yn swper priodas terfynol yr Oen (gweler Dat. 19:7–9).

Yn y cyfamser, nid gwylnos angladd mo Swper yr Arglwydd byth, ond gwledd o lawenydd bob amser. Drwy waith yr Ysbryd Glân, nid absenoldeb Crist sy'n peri i'n calonnau hiraethu am ei ailddyfodiad gymaint, ond ei bresenoldeb go iawn. Dim eneniad olaf achos colledig ydy'r bara a'r gwin ond sacramentau cyntaf Eglwys fyw. Byddai disgyblion Iesu wedi cofio am yr oruwchystafell ar y noson dywyll honno, ond mi fydden nhw hefyd wedi cofio am sawl brechwast a swper a gawson nhw gyda Christ wedi iddo atgyfodi. Mi ddysgon nhw, fel y gwnawn ninnau, nad gweithred o gydymdeimlo ydy torri'r bara gydag ef, ond o gymundeb â'r Arglwydd croeshoeliedig sydd wedi atgyfodi ac a fydd yn dychwelyd. Fel y dywedodd P.T. Forsyth: “Sut y gallwn ni gael coffâd i Un sydd yn dal yn fyw, sy'n fywyd i ni o hyd, ac sy'n dal i fod gyda ni ac yn gweithredu o'n mewn?”

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Luc 15:1–2, 11–32; 24:13–35; Ioan 21:12–14; Dat. 19:5–10

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut bu 'Emaus' yn brofiad llawen ac nid yn brofiad trist i'r disgyblion?
2. Sut mae'r 'caneuon' mae Ioan wedi'u cofnodi yn ei Ddatguddiad yn moli Duw?

Gweddi

O Dad, diolch i ti am f'atgoffa nad cyfranogi mewn coffâd ydw i yn y Cymun Bendigaid, ond mewn gweinidogaeth – gweinidogaeth yr Un a fu farw ond sy'n fyw eto. Amen.